**DIM EMBARGO – I'W GYHOEDDI AR UNWAITH**

# DATGANIAD I'R WASG:

**GŴYL FACH Y FRO 2017 – Y GORAU ETO!**

Mae Menter Bro Morgannwg yn falch iawn i gyhoeddi y gwelwyd cynnydd sylweddol eto yn nifer yr ymwelwyr i'r ŵyl yn ei thrydedd blwyddyn.

Daeth dros 6,500 o ymwelwyr i fwynhau'r ŵyl rhad ac am ddim yma ar Ynys y Barri ddydd Sadwrn – cynnydd o dros 100% i'w gymharu â llynedd (3,000).

Roedd yr ŵyl yn cynnwys perfformiadau cerddorol, dawns a theatr, stondinau crefft a chynnyrch Cymraeg, bar Tomos & Lilford, stondinau bwyd, adloniant stryd, ac amryw o weithdai crefft, syrcas a chwaraeon. Am y tro cyntaf eleni roedd Ardal Chwarae Bwrlwm i ddathlu lansio darpariaeth chwarae newydd bydd yn cael ei gynnal dros wyliau'r haf, ac roedd gweithgareddau'r ardal hon yn cynnwys beic bybls, disgo a gweithdai creadigol gyda Green City Events.

Roedd y line-up yn cynnwys rhai o artistiaid mwyaf blaengar y sín gerddoriaeth Gymraeg – Bryn Fôn a'r Band, Candelas, HMS Morris, Eady Crawford, Band Nantgarw a Band Jazz Rhys Taylor. Camodd gannoedd o ddisgyblion o ysgolion Cymraeg y Sir hefyd i'r llwyfan i berfformio yn ystod y prynhawn.

Wrth siarad am lwyddiant yr ŵyl eleni, dywedodd y Cynghorydd John Thomas, Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg: *"Roedd yn wych i weld cymaint o drigolion, ac ymwelwyr, yn mwynhau Gŵyl Fach y Fro dros y penwythnos. Gyda'r lleoliad unigryw, tywydd gwych, stondinau yn gwerthu cynnyrch a chrefftau Cymraeg, ac amrywiaeth o weithgareddau Cymraeg, mae'r ŵyl yn esiampl gwych o'r hyn sydd gan Bro Morgannwg i'w gynnig."*

Dywedodd Rob Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyngor: *"Mae'r Cyngor yn falch iawn i weithio mewn partneriaeth gyda Menter Bro Morgannwg i lwyfannu digwyddiad mor llwyddiannus ac rydym wrth ein boddau i weld yr ŵyl yn mynd o nerth i nerth bob blwyddyn."*

Rydym hefyd yn gofyn am adborth gan fynychwyr yr ŵyl, fydd yn ein helpu wrth werthuso'r digwyddiad. Mae'r holiadur ar-lein ar gael yma:
https://www.surveymonkey.co.uk/r/GwylFachyFro17

**Diwedd**

www.menterbromorgannwg.cymru
Facebook: Menter Bro Morgannwg
Twitter: @MIBroMorgannwg / #gwylfachyfro
Instagram: Menter Bro Morgannwg

*Nodiadau*

- *Gŵyl Fach y Fro yw'r ŵyl a sefydlwyd gan Menter Bro Morgannwg yn 2015 i ddathlu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg.*
- *Prif nod y Fenter yw i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol ym Mro Morgannwg, ac i gynnig a chreu cyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i furiau'r ysgol ac oriau gwaith.*
- *Cafodd Gŵyl Fach y Fro 2017 ei noddi gan Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cronfa Loteri Fawr a Chyngor Bro Morgannwg.*

Am fwy o wybodaeth: sian@menterbromorgannwg.cymru / 029 20689888
Prif Weithredwr Menter Bro Morgannwg
www.menterbromorgannwg.cymru